

P-04-408 : Gwasanaeth i Atal Anhwylder Bwyta ymysg Plant a Phobl Ifanc

Geiriad y ddeiseb:

Rydym yn galw ar Gynulliad Cenedlaethol Cymru i annog Llywodraeth Cymru i ariannu'r Gwasanaeth i Atal Anhwylder Bwyta ymysg Plant a Phobl Ifanc yng Nghymru i'r un graddau â'r Gwasanaeth i Atal Anhwylder Bwyta ymysg Oedolion yng Nghymru.

Daeth i'm sylw bod symiau gwahanol o arian yn cael eu rhoi i Wasanaethau i Oedolion a Gwasanaethau i Blant a Phobl Ifanc ar gyfer ymdrin ag anhwylder bwyta. Ar hyn o bryd, mae'r Gwasanaeth i Atal Anhwylder Bwyta ymysg Oedolion yn cael £1 filiwn y flwyddyn gan Gynulliad Cymru, yn ogystal â phedwar grŵp darparu a hyfforddwyd gan arbenigwyr. Yn anffodus, mae gwaith ymchwil yn nodi'r ffaith bod pobl yn fwyaf tebygol o gael eu profiad cyntaf o anhwylder bwyta, yn enwedig Anorecsia Nerfosa, yn ystod eu glaslencyndod. Yn hanesyddol, roedd pobl yn cyrraedd glaslencyndod pan oeddent rhwng 12 a 15 oed. Fodd bynnag, bellach, mae hyn yn digwydd pan fydd pobl yn llawer iau ac felly mae'r ystadegau'n dechrau dangos bod mwy o blant iau yn dioddef o Anorecsia Nerfosa. Bydd pobl fel arfer yn dechrau dioddef o Fwlimia Nerfosa pan fyddant rhwng 18 a 25 oed. Fodd bynnag, fel gydag Anorecsia, gall hyn amrywio o berson i berson. Mae'r ffaith mai cymryd camau buan yw'r allwedd i sicrhau gwellhad cyflym mewn perthynas â'r ddau anhwylder, ac, yn ddiau, pob anhwylder bwyta y gellir ei ddiagnosisio, sy'n atal goblygiadau ariannol hirdymor i'r Llywodraeth, yn gwneud y cais hwn yn fwy perthnasol. Felly, rwy'n ymbil ar y Cynulliad i ystyried hyn yn flaenoriaeth ar gyfer dadl i gael gwared ar y gwahaniaeth hwn drwy roi'r un swm o arian i'r Gwasanaeth i Atal Anhwylder Bwyta ymysg Plant a Phobl Ifanc Nghymru ag a roddir i'r Gwasanaeth i oedolion.

Cyflwynwyd y ddeiseb gan: Helen Missen

Ysytiriwyd am y tro cyntaf gan y Pwyllgor: 17 Gorffennaf 2012

Nifer y llofnodion: . 246